OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 No. 101

# Rheoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Gweinyddu) (Cymru) 2018

## RHAN 2

## CYMYSGEDDAU O DDEUNYDDIAU SY'N GYFAN GWBL AR FFURF GRONYNNAU MÂN

*Cosbau*

**Cosb am fethu â chydymffurfio â gofynion sy'n ymwneud â thystiolaeth**

**8.**—(1) Mae gweithredwr safle tirlenwi awdurdodedig sy'n—

(a) trin cymysgedd o ddeunyddiau sy'n gyfan gwbl ar ffurf gronynnau mân fel cymysgedd cymwys o ddeunyddiau wrth roi cyfrif am y dreth sydd i'w chodi ar warediad trethadwy, ond

(b) sy'n methu â chydymffurfio—

(i) â gofyniad 2 yn rheoliad 4 (mewn perthynas â'r gwarediad hwnnw), neu

(ii) â gofyniad 4 yn rheoliad 5 (mewn perthynas â'r cymysgedd hwnnw),

yn agored i gosb nad yw'n fwy na £3,000.

(2) Ond nid yw'r gweithredwr yn agored i gosb o dan y rheoliad hwn mewn cysylltiad â'r methiant os yw ACC wedi ei fodloni bod unrhyw ffeithiau y mae'n ei gwneud yn rhesymol ofynnol iddynt gael eu profi, ac a fyddai wedi eu profi gan y dystiolaeth pe bai'r gweithredwr wedi cydymffurfio â'r gofynion hynny, yn cael eu profi gan dystiolaeth ddogfennol arall a ddarperir iddo.

**Asesu cosbau a'u talu**

**9.**—(1) Pan ddaw gweithredwr safle tirlenwi awdurdodedig yn agored i gosb o dan reoliad 8, rhaid i ACC—

(a) asesu'r gosb, a

(b) dyroddi hysbysiad i'r gweithredwr am y gosb a asesir.

(2) Caniateir cyfuno asesiad o gosb gydag asesiad treth.

(3) Rhaid i asesiad o gosb o dan reoliad 8 gael ei wneud o fewn y cyfnod o 12 mis sy'n dechrau â'r diwrnod y daeth ACC i gredu yn gyntaf bod y gweithredwr yn agored i'r gosb.

(4) Rhaid i weithredwr safle tirlenwi awdurdodedig y dyroddir hysbysiad am gosb iddo o dan y rheoliad hwn dalu'r gosb cyn diwedd y cyfnod o 30 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod y dyroddir yr hysbysiad am y gosb (ond gweler adran 182 o DCRhT (talu cosbau yn achos adolygiad neu apêl)).

**Darpariaeth atodol ynghylch cosbau**

**10.**—(1) Nid yw person yn agored i gosb o dan reoliad 8 mewn cysylltiad ag unrhyw beth os yw'r person wedi cael euogfarn am drosedd mewn perthynas â hynny.

(2) Os yw person sy'n agored i gosb o dan reoliad 8 wedi marw, caniateir asesu unrhyw gosb y gellid bod wedi ei hasesu ar y person ar gynrychiolwyr personol y person.

(3) Mae cosb a asesir yn unol â pharagraff (2) i'w thalu o ystad y person.